CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Polisi a Gweithdrefn Gwrth-lwgrwobrwyo

**Diben**
Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i egluro a rhoi canllawiau ar safbwynt y Gymdeithas ar atal a gwahardd llwgrwobrwyo, yn unol â Deddf Llwgrwobrwyo 2010. Bydd y polisi yn disgrifio'r safonau, y cyfreithiau a'r canllawiau tra bydd y weithdrefn yn disgrifio'r tasgau a'r camau gweithredu sydd eu hangen. Nodir crynodeb o'r meysydd a gwmpesir gan y polisi hwn isod:

**Egwyddorion Cyffredinol**
Dull y Gymdeithas yw:
- Ymrwymo i gynnal ei fusnes mewn modd gonest a moesegol, a gweithredu'n deg, yn broffesiynol ac yn onest yn ei holl drafodion a pherthnasoedd busnes.
- Arfer dull dim goddefgarwch tuag at lwgrwobrwyo a llygredd.
- Gorfodi systemau effeithiol i wrthweithio llwgrwobrwyo.

**Diffiniadau**
At ddiben y polisi hwn:
- Mae “Gweithwyr” yn cyfeirio at bob unigolyn sy’n gweithio i’r Gymdeithas neu ar ei rhan mewn unrhyw swyddogaeth gan gynnwys
- cyflogeion, staff achlysurol, gwirfoddolwyr, staff asiantaeth, ymgynghorwyr a chontractwyr.
- Mae “person cysylltiedig” yn cyfeirio at unrhyw berson arall sy’n cyflawni gwasanaethau i’r Gymdeithas neu ar ei rhan.
- Mae “trydydd parti” yn cyfeirio at unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n dod i gysylltiad â gweithiwr y Gymdeithas gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gleientiaid presennol, cleientiaid posibl, cyflenwyr, cysylltiadau busnes, asiantau, cynghorwyr, swyddogion/cynghorwyr/cynrychiolwyr y llywodraeth a'r cyhoedd, gwleidyddion a phleidiau gwleidyddol.

**Llwgrwobrwyo**
Llwgrwobrwyo yw cynnig, addo, rhoi neu dderbyn unrhyw fantais ariannol, neu fath arall o fantais, er mwyn annog rhywun i gyflawni ei swyddogaethau neu ei weithgareddau yn amhriodol neu i wobrwyo'r person hwnnw am wneud hynny eisoes.

Gall y canlynol fod yn drosedd dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010:
- Rhoi neu gynnig llwgrwobr

- Derbyn neu ofyn am lwgrwobr, neu
- Llwgrwobrwyo swyddog cyhoeddus tramor

Bydd y Gymdeithas hefyd yn cyflawni trosedd dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010 os yw'n methu ag atal llwgrwobrwyo gan weithiwr neu berson cysylltiedig at ddiben cael busnes neu fantais fusnes ar gyfer y Gymdeithas.

**Beth sydd wedi'i wahardd?**
Mae'r Gymdeithas yn gwahardd yn llym unrhyw weithiwr neu berson cysylltiedig rhag gwneud y canlynol:

- Rhoi, addo rhoi, neu gynnig i rywun: Taliad, rhodd neu letygarwch gyda'r disgwyliad neu'r gobaith y byddant hwy neu'r Gymdeithas yn cael mantais fusnes yn amhriodol, neu fel gwobr am fantais fusnes a roddwyd eisoes yn amhriodol.
- Taliad, rhodd neu letygarwch i swyddog, asiant neu gynrychiolydd y llywodraeth i hwyluso neu gyflymu gweithdrefn benodol.
- Derbyn taliad ar ran trydydd parti lle gwyddys neu lle amheuir ei fod yn cael ei gynnig neu ei roi gyda'r disgwyliad y bydd y trydydd parti yn cael mantais fusnes yn amhriodol.
- Derbyn rhodd neu letygarwch gan drydydd parti lle gwyddys neu lle amheuir ei fod yn cael ei gynnig neu ei ddarparu gyda disgwyliad y bydd mantais fusnes yn cael ei darparu'n amhriodol gan y Gymdeithas yn gyfnewid.
- Bygwth neu ddial yn erbyn gweithiwr arall sydd wedi gwrthod cyflawni trosedd llwgrwobrwyo neu sydd wedi codi pryderon dan y polisi hwn.
- Ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a allai arwain at dorri'r polisi hwn. Dylai gweithwyr a phobl gysylltiedig fod yn arbennig o wyliadwrus wrth weithio dramor.

**Rhoddion Elusennol**
Gall y Gymdeithas, yn ôl ei disgresiwn, gefnogi nifer o elusennau a gall hefyd gefnogi digwyddiadau codi arian sy'n cynnwys cyflogeion ond dim ond mewn perthynas â rhoddion sy'n gyfreithlon ac yn foesegol dan gyfreithiau ac arferion lleol y gwneir hynny.

**Taliadau Hwyluso**
Llwgrwobrwyon a delir i hwyluso camau gweithredu arferol y Llywodraeth yw taliadau hwyluso. Nid yw'r Gymdeithas yn gwneud, ac ni fydd yn derbyn, taliadau hwyluso.

**Rhoddion a Lletygarwch**
Dylid adrodd am unrhyw roddion, gwobrau neu adloniant a dderbynnir neu a gynigir gan drydydd parti ar unwaith. Mae'r Gymdeithas yn categoreiddio rhoddion fel a ganlyn:

- Rhoddion a lletygarwch na ddylid eu derbyn – Yn gyffredinol, rhoddion a lletygarwch gwerth uchel yw'r rhain y gellid yn rhesymol ystyried eu bod yn peryglu barn ac uniondeb personol. Er enghraifft, rhoddion ariannol, dillad drud, gwyliau, aelodaeth o glwb(iau).
- Rhoddion a lletygarwch y gellir eu derbyn ond a fydd fel arfer yn cael eu rhannu, lle bo'n berthnasol – Mae'r rhain yn rhoddion gwerth is yn gyffredinol a allai fod yn anodd eu gwrthod.. Er enghraifft, blodau, llyfrau ac, yn achos lletygarwch, pryd o fwyd gyda'r nos.

- Rhoddion a lletygarwch y gall yr unigolyn eu derbyn a'u cadw – Mae'r rhain fel arfer yn rhoddion gwerth isel iawn fel pennau, mygiau, cylchoedd allweddi ac, yn achos lletygarwch, ciniawau gwaith.

Os yw gweithiwr yn dymuno rhoi rhoddion neu letygarwch i drydydd parti, rhaid cael cymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, ynghyd â manylion am:

- Pwrpas yr adloniant neu'r gwariant arfaethedig i gwsmeriaid.
- Pwy yw'r derbynnydd neu'r rhai a fydd yn mynychu.
- Y Gymdeithas maen nhw'n ei chynrychioli.
- Manylion y rhodd neu'r lletygarwch arfaethedig.

Dim ond os ydynt yn dangos amcan busnes clir a'u bod yn briodol ar gyfer natur y berthynas fusnes y bydd y Gymdeithas yn cymeradwyo darparu rhoddion a lletygarwch. Ni fydd y Gymdeithas yn cymeradwyo darparu rhoddion a lletygarwch lle mae'n ystyried y gallai gwrthdaro buddiannau godi neu lle gellid canfod bod dylanwad gormodol neu fantais fusnes amhriodol yn cael ei geisio, e.e. cyn ymarfer tendro.

**Cofnodion**
Rhaid i weithwyr a, lle bo'n berthnasol, unigolion cysylltiedig gymryd gofal cyn ymrwymo i unrhyw gontract neu berthynas â thrydydd parti, a chydymffurfio â gweithdrefnau caffael a rheoli risg y Gymdeithas, lle y maent ar gael.

Rhaid cadw cofnodion mewn perthynas ag unrhyw weithgareddau busnes gyda thrydydd partïon, megis contractau, anfonebau ariannol, cofnodion o letygarwch a rhoddion a gynigiwyd ac a dderbyniwyd yn unol â gweithdrefnau'r Gymdeithas.

**Hyfforddiant**
Bydd y Gymdeithas yn sicrhau bod gan weithwyr a phobl gysylltiedig fynediad at y polisi hwn a bydd yn sefydlu sesiynau hyfforddi i weithwyr a phobl gysylltiedig lle bo angen.